

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Meinir Ebbsworth

Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion  
Corporate Lead Officer : Schools

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE  
www.ceredigion.gov.uk



Dyddiad Date	16/05/2019
Gofynnwch am Please ask for	Geraint Evans
Llinell uniongyrchol Direct line	01970 633614
Fy nghyf My ref	GE
Eich cyf Your ref	
Ebost Email	Geraint.Evans@ceredigion.gov.uk

## DATGANIAD O DDIDDORDEB: GWERSI CERDD PERIPATETIG

Annwyl Riant/Gwarchodwr

Bydd Gwasanaeth Cerdd Ceredigion yn parhau i gynnig ystod eang o wersi offerynnol a lleisiol. Ar hyn o bryd, rydym yn mesur y galw ar gyfer y ddarpariaeth y bydd ei hangen ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf sy'n cychwyn ym mis Medi 2019.

Dyma'r gwersi y byddwn yn eu cynnig:

**Llinynnau** - feiolin, fiola, soddgrwth, bas dwbl

**Chwythbren** - fflwt, obo, clarinét, basŵn, sacsoffon

**Pres** - cornet, trwmped, corn Ffrengig, corn tenor, bariton, ewffoniwm, trombôm, tiwba

**Telyn**

**Offerynnau Taro** - cit drymiau, offerynnau taro tiwniedig

**Piano**

**Llais** (canu) – ysgolion uwchradd yn unig

Mae croeso i'ch plentyn ddewis mwy nag un offeryn os yw'n dymuno gwneud hynny. Dylech nodi y disgwylir ymrwymiad ar gyfer y flwyddyn gyfan, felly ni fyddai modd eich ad-dalu os ydych yn penderfynu rhoi'r gorau i dderbyn gwersi cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Bydd cost flynyddol ar gyfer gwersi, ac ar hyn o bryd disgwylir i hynny fod yn £140.00. Bydd y gost ar gyfer unrhyw frodyr neu chwiorydd yn £70.00 y flwyddyn. Bydd disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sy'n astudio

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :  
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :

Eifion Evans  
Sue Darnbrook  
Barry Rees

Cerddoriaeth ar gyfer TGAU a Lefel A yn derbyn gwersi yn rhad ac am ddim. Nid oes unrhyw gost ar gyfer yr ensembles a'r corau wythnosol ar gyfer ysgolion cynradd.

Bydd cost ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n dymuno mynychu'r cyrsiau preswyl yn Llangrannog, yn yr un modd ag arfer. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys aros yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog am dri diwrnod/dwy noson. Bydd amser a lleoliad y gwersi, yr ensembles, y cerddorfeydd, a'r corau yn cael eu cadarnhau unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i derbyn.

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn dechrau derbyn neu barhau i dderbyn gwersi offerynnol / lleisiol, a fyddoch cystal â dychwelyd y ffurflen hon at y cyfeiriad isod neu'r cyfeiriad e-bost ar frig y llythyr hwn erbyn **dydd Mercher 5 Mehefin 2019 fan hwyraf**.

Nid ydych yn ymrwmo i unrhyw beth drwy gwblhau'r ffurflen hon, ond mynegi diddordeb yn unig.

**Geraint Evans**  
**Rheolwr y Gwasanaeth Cerdd**  
**Canolfan Rheidol**  
**Rhodfa Padarn**  
**Llanbadarn Fawr**  
**ABERYSTWYTH**  
**SY23 3UE**

Pe hoffech unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Mr Geraint Evans, Rheolwr y Gwasanaeth Cerdd ar y rhif ffôn uchod.

Yn gywir



Geraint Evans  
Rheolwr y Gwasanaeth Cerdd  
(ar ran Mrs Meinir Ebbsworth Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion)

**Gwasanaeth Cerdd Ceredigion 2019 - 20**

**Gwersi Offerynnol / Llais**

<b>Enw'r Disgybl</b>	<b>Offeryn</b>	<b>Ysgol</b>	<b>Blwyddyn Medi 2019</b>	<i>Er Defnydd y Swyddfa yn Unig PID</i>

**A allwch chi, os gwelwch yn dda, gofnodi pob plentyn ar un ffurflen.**

**LLOFNOD Y RHIANT / GWARCHEIDWAD:** \_\_\_\_\_  
**ENW LLAWN Y RHIANT / GWARCHEIDWAD** \_\_\_\_\_  
**(Print):** \_\_\_\_\_

**Cyfeiriad**  
**Llawn:** \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

**Cod Post:** \_\_\_\_\_  
**Rhif Ffôn:** \_\_\_\_\_  
**Ffôn**  
**Symudol:** \_\_\_\_\_  
**Cyfeiriad E-**  
**bost:** \_\_\_\_\_

**Ceredigion Music Service 2019 - 20**

**Instrumental / Vocal Lessons**

<b>Pupil's Name</b>	<b>Instrument</b>	<b>School</b>	<b>Year Sept 2019</b>	<i>Office Use Only PID</i>

**Please enter all children on one form.**

**SIGNATURE OF PARENT / GUARDIAN:** \_\_\_\_\_  
**FULL NAME OF PARENT / GUARDIAN**  
**(Print):** \_\_\_\_\_

**Full Address:** \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

**Post Code:** \_\_\_\_\_

**Phone**  
**Number:** \_\_\_\_\_

**Mobile**  
**Number:** \_\_\_\_\_

**E-mail**  
**Address:** \_\_\_\_\_